# Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

# Cyngor Tref Llangefni

1. **Rhagair**

Mae bioamrywiaeth yn sylfaen i iechyd ein hamgylchedd, ein cymunedau, a'n treftadaeth. Mae Cyngor Tref Llangefni yn cydnabod ei gyfrifoldeb i warchod a gwella bioamrywiaeth leol, gan weithredu'n unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy.

Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol 'geisio cynnal a gwella' bioamrywiaeth wrth arfer ei gweithgareddau, a thrwy hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau '.

I Gyngor Tref Llangefni mae hyn yn golygu y dylai'r Cyngor, ym mhob polisi, gweithgaredd mewnol ac wrth reoli ein parciau a'n caeau chwarae, geisio cyfleoedd i gynnal a gwella bywyd gwyllt sy'n cael ei gynnal yn yr ardal ac i reoli'r cynefinoedd (e.e. glaswelltiroedd, coed, gwlypdiroedd) fel eu bod mewn cyflwr mor naturiol a gwydn â bosibl.

Mae'r ddyletswydd hefyd yn cefnogi cyfrifoldebau ehangach Cynghorau Tref o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn i Gymru elwa o economi lewyrchus, amgylchedd iechyd a gwydn a chymunedau bywiog, cydlynol.

Bydd ystyried a gweithredu y polist yn gwneud defnydd o **Adroddiad Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru** gan ystyried themau a argymhellir isod:

a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
b) y cysylltiad rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
c) graddfa ecosystemau;
d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad;
e) gallu cyflwr ecosystemau I addasu.

2. **Nodau'r Strategaeth**

- Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau brodorol
- Gwella cysylltedd ecolegol rhwng safleoedd naturiol
- Codi ymwybyddiaeth gymunedol am fioamrywiaeth
- Cefnogi mentrau lleol sy'n hyrwyddo cadwraeth natur

- Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried ym mhob penderfyniad cynllunio a rheoli tir

3. **Egwyddorion Gweithredu**

- **Dim colled net** o fioamrywiaeth mewn unrhyw brosiect neu ddatblygiad
- **Cydweithio** gyda chymunedau, ysgolion, ffermwyr, a sefydliadau cadwraeth
- **Monitro ac adrodd** ar gynnydd yn flynyddol
- **Integreiddio bioamrywiaeth** mewn polisïau eraill y Cyngor

4. **Blaenoriaethau Lleol**

Yn seiliedig ar nodweddion ecolegol a hanesyddol yr ardal:

- Gwarchod dolydd blodau gwyllt, coetiroedd brodorol, a glannau afonydd
- Adfer safleoedd diwydiannol hanesyddol (e.e. chwareli, glofeydd) fel cynefinoedd naturiol
- Hyrwyddo garddio naturiol, plannu brodorol, a lleihau defnydd o blaladdwyr
- Creu llwybrau natur a mannau dysgu awyr agored ar gyfer ysgolion

5. **Cynllun Gweithredu**

| **Gweithred** | **Disgrifiad** | **Amserlen** | **Partneiaid** |
|---|---|---|---|
| Arolwg bioamrywiaeth lleol | Mapio cynefinoedd a rhywogaethau allweddol | Blwyddyn 1 | Ecolegydd lleol, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Maes Chwarae 1 - 6 | | | |
| Clwb Peldroed | | | |
| Clwb Criced | | | |
| Clwb Peldroed Lon Newydd | | | |
| Safle Lon Las | | | |
| Afon Cefni | | | |
| Afon Clai | | | |
| Y Fynwent Lon Newydd | | | |
| Safle'r Orsedd Ysbyty Cefni | | | |
| Llwybrau 1 - 9 | | | |
| Allotment | | | |
| | | | |

6. **Monitro a Gwerthuso**

- Adroddiad blynyddol i'r Cyngor Tref

- Adolygiad bob 3 blynedd gyda'r gymuned
- Defnyddio dangosyddion megis nifer y rhywogaethau, arwynebedd cynefinoedd, a lefelau ymgysylltu cymunedol

7. **Cyd-destun Hanesyddol a Diwylliannol**

Bydd y strategaeth yn adlewyrchu treftadaeth leol drwy:

- Ddefnyddio enwau Cymraeg traddodiadol ar safleoedd natur
- Cynnwys hanesion llafar am natur a chadwraeth
- Cysylltu bioamrywiaeth â chwedlau, barddoniaeth, a hanes lleol.

Diwedd